DWP
Department for Work and Pensions
Adran Gwaith a Phensiynau

Ymgynghoriad cyhoeddus

Dyfodol y Gronfa Byw'n Annibynnol

Gorffennaf 2012

Rhagair y Gweinidog

Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae'r system gofal cymdeithasol ledled y DU wedi newid yn sylfaenol. Yn Lloegr, mae datblygiad cyllidebau personol, gan adeiladu ar brofiadau pobl anabl drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol, wedi rhoi dewis a rheolaeth yn nwylo'r defnyddwyr gwasanaeth. Gan adeiladu ar y cynnydd hwn, ac fel y'i nodir ym Mhapur Gwyn Gofal a Chymorth 'Caring for our future: reforming care and support', bydd y Bil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd sydd i ddod yn rhoi cyllidebau personol ar sail statudol, a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gynnig cyllidebau personol i bob person anabl sy'n gymwys i gael gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae symud tuag at fwy o ddewis a rheolaeth i bobl anabl hefyd yn un o nodweddion diwygio gofal cymdeithasol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r Gronfa Byw'n Annibynnol (y Gronfa) wedi chwarae rôl bwysig, yn rhoi cymorth i rai pobl anabl ar ffurf taliadau ariannol uniongyrchol ers i'r gronfa gael ei sefydlu yn 1988. Ond mae wedi bod yn glir ers peth amser bod y newidiadau a welwyd yn y system gofal a chymorth ehangach wedi codi amheuon am effeithlonrwydd ffrwd ariannu ar wahân sy'n gweithredu ochr yn ochr, ond y tu allan, i'r system gofal a chymorth prif ffrwd a ddarperir gan awdurdodau lleol. Yn ogystal, er bod y Gronfa wedi gweithredu meini prawf cymhwysedd cenedlaethol yn gyson, mae cyfraddau cofrestru ar gyfer y Gronfa yn amrywio'n sylweddol fesul ardal. Dyma oedd casgliadau adolygiad annibynnol o'r gronfa yn 2007, ond ni wnaed penderfyniad ar ddyfodol strategol y gronfa bryd hynny.

Mae'r Llywodraeth o'r farn y gall anghenion gofal a chymorth defnyddwyr presennol y Gronfa gael eu diwallu o fewn un system gofal cymdeithasol gydlynol ac y dylai hynny ddigwydd mewn ffordd sy'n unol â'n hymrwymiad i leoliaeth, gydag arian a gwasanaethau wedi'u hintegreiddio ar sail angen unigolion drwy gyllidebau personol. Ein dull dewisol o weithredu o 2015 ymlaen fyddai i arian y Gronfa gael ei ddatganoli i lywodraeth leol yn Lloegr ac i'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban. Mae'r angen amlwg i ddiwygio'r system wrth wraidd ymagwedd y Llywodraeth at y Gronfa. Hoffem roi sicrwydd i ddefnyddwyr ein bod yn parhau'n ymrwymedig i gynnal eu pecynnau gofal tan fis Ebrill 2015. Diben yr ymgynghoriad yw ceisio eu barn ar sut y cânt eu cefnogi o 2015 a thu hwnt.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn pobl anabl, eu gofalwyr, eu teuluoedd, awdurdodau lleol a phartïon eraill â diddordeb ar y dull arfaethedig, a'r goblygiadau posibl i ddefnyddwyr y Gronfa a'r system gofal a chymorth yn ehangach. Gobeithio y gallwn gael barn ystod mor eang o unigolion a sefydliadau â diddordeb â phosibl.

Maria Miller AS
Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol a Gweinidog Pobl Anabl

Diben y ddogfen ymgynghori

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio eich barn ar yr effaith y byddai datganoli arian i awdurdodau lleol a Gweinyddiaeth Ddatganoledig, gan arwain at ddiwedd y Gronfa Byw'n Annibynnol yn 2015, yn ei chael ar ddefnyddwyr, awdurdodau lleol a'r systemau gofal a chymorth ehangach ledled y DU. Hoffai'r Llywodraeth glywed eich barn ar sut y gellir rheoli diwedd y gronfa mewn ffordd a fyddai'n amharu cyn lleied â phosibl ar anghenion gofal a chymorth defnyddwyr presennol y Gronfa.

Cyhoeddwyd y ddogfen hon ar 12 Gorffennaf 2012. Gofynnwn i chi ymateb i'r cwestiynau erbyn 10 Hydref 2012. Mae manylion am sut i ymateb i'w gweld ym Mhennod 7.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn, neu os hoffech gael y ddogfen ymgynghori mewn fformat penodol, er enghraifft, print bras, Braille, fformat sain neu Hawdd ei Ddarllen, cysylltwch â:

ILF Consultation Team
Ground Floor Caxton House
Tothill Street
London
SW1H 9NA
Ffôn: 0207 449 7999
peiriant ateb yn unig
Ffôn testun: 18001 0207 449 7999
peiriant ateb yn unig
Ffacs: 0207 449 5087
E-bost: ilf.consultation@dwp.gsi.gov.uk

Y gweinyddiaethau datganoledig

Mae'r Gronfa yn gweithredu ledled y Deyrnas Unedig, ac felly mae'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon[1]. Fodd bynnag, mae cyfrifoldeb am ofal a chymorth wedi'i ddatganoli. Er bod y ddogfen hon yn ceisio barn ar sut y gellir diwallu anghenion defnyddwyr y Gronfa orau yn y system gofal cymdeithasol brif ffrwd, Llywodraethau perthnasol pob rhan o'r Deyrnas Unedig fydd yn gyfrifol am ymateb i bolisïau penodol a fydd yn deillio o gau'r gronfa.

Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i weithio'n agos â Llywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

[1] Mae'r arian ar gyfer defnyddwyr y Gronfa yng Ngogledd Iwerddon ar hyn o bryd yn gyfrifoldeb Adran Datblygu Cymdeithasol Gogledd Iwerddon, ac nid yr Adran Gwaith a Phensiynau.

ISBN 978-1-78153-042-9

(h) Hawlfraint y Goron 2012

Cyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau

Gorffennaf 2012

www.dwp.gov.uk/cymraeg